# CYDBWYLLGOR GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Hysbysiad Penderfynu – Cyfarfod o Bell, 25 Mehefin, 2025.

Mae agenda'r Pwyllgor ar gael yma.

Mae recordiad o'r cyfarfod ar gael yma.

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Y Cynghorydd H. Williams.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – y Cynghorwyr N. Mackie a M. Michael.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg – Y Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam.

EITEM AGENDA 1 PENODI CADEIRYDD -

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd R. Sivagnanam yn Gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.

EITEM AGENDA 2 PENODI IS-GADEIRYDD -

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd H. Williams yn Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.

EITEM AGENDA 3 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB -

Derbyniwyd hyn gan y Cynghorydd M. Lewis (sy'n cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr).

EITEM AGENDA 4 COFNODION -

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2025 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 5 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 6 DATGANIAD CYFRIFON NAS ARCHWILIWYD GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR 2024/25 (PC/SA151) -

PENDERFYNWYD –

(1) Nodir cynnwys adroddiad Datganiad Cyfrifon Heb Archwiliad Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2024/25, yn dilyn adolygiad gan y Cydbwyllgor.

(2) Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn cael ei gymeradwyo'n electronig gan yr Aelodau erbyn 25 Mehefin 2025, gan alluogi cymeradwyaeth derfynol erbyn y dyddiad cau sef 30 Mehefin 2025..

(3) Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i lofnodi Datganiad Cyfrifon Anarchwiliedig 2024/25 i'w ryddhau i Archwilio Cymru.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Er mwyn cymeradwyo'r Datganiad Nas Archwiliwyd i Aelodau cyn y dyddiad cau.

(2&3) Er mwyn sicrhau cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

EITEM AGENDA 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-25 Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2024-25 ac awdurdodi Prif Reolwr Cyngor Bro Morgannwg i anfon copi o'r adroddiad at Benaethiaid y Gwasanaeth Cyflogedig y Cynghorau partner eraill.

(2) Nodi'r sefyllfa alldro nas archwiliwyd 2024-25

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Er mwyn i'r Cynghorau partner a'r Cydbwyllgor fodloni'r gofynion a nodir yng Nghymal 5.1 y Cytundeb Cydweithio.

(2) Yn dilyn ystyriaeth ac ymwybyddiaeth Aelodau'r Cydbwyllgor o sefyllfa alldro nas archwiliwyd 2024-25.

EITEM AGENDA 8 CYNLLUN BUSNES Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR 2025-26 (CAT) -

PENDERFYNWYD –

(1) nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo Cynllun Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2025/26.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Busnes 2025/26 pe bai'r angen yn codi.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Nododd y Cytundeb Cydweithio (yng nghymal 14) y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir bob blwyddyn yn llunio Cynllun Busnes drafft o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Rheoli. Diben y Cynllun Busnes, fel y nodwyd gan y Cytundeb Cydweithio, oedd diweddaru'r wybodaeth yn y Cynllun Busnes blaenorol; a nodi'r cynigion ar gyfer gweithgareddau gwasanaeth, amcanion busnes ac ariannol, targedau effeithlonrwydd, cynllunio parhad busnes, rheoli risg, lefelau staffio dangosol a newidiadau, targedau perfformiad, costau ac incwm. Nododd y Cytundeb Cydweithio ymhellach y dylid cyflwyno Cynllun Busnes drafft i'r Cydbwyllgor i'w gymeradwyo, ac, ar ôl ei gymeradwyo, câi hwn ei ddosbarthu i Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig pob Awdurdod cyfranogol.

(2) Bydd awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i'r Cynllun Busnes yn galluogi gwneud mân newidiadau, yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn, heb fod angen dod â'r mater yn ôl i'r Cydbwyllgor. Yn ogystal â lleihau'r baich ar y Cydbwyllgor, byddai’r dull hwn yn golygu y gellid gwneud mân newidiadau yn brydlon mewn ymateb i unrhyw faterion a gododd.

EITEM AGENDA 9 CYNLLUN GWASANAETH GORFODI IECHYD A DIOGELWCH GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR 2025/26 (CAT) -

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2025/26.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2025/26 yn ôl yr angen.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Byddai hyn yn sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir drefniadau cadarn ar waith i gyflawni ei rwymedigaethau fel awdurdod gorfodi dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a chydymffurfio â chanllawiau statudol.